# YR AELOD CABINET DROS FATERION GWLEDIG, CYDLYNIANT CYMUNEDOL A PHOLISI CYNLLUNIO

**DYDD** Llun, 25 Mawrth 2024

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd C.A. Davies (Aelod o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn rhithwir):**
A. Rees, Swyddog Biwro
R. Phillips – Rheolwr Rhanbarthol – Datblygu Economaidd

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
K. Evans - Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol

**Ystafell Aelod y Cabinet, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell – 9.00yb - 9.13yb**

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 IONAWR 2024

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, 2024, gan ei fod yn gywir.**

## 3. GRANT CYMORTH RHANDIROEDD LLYWODRAETH CYMRU

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer cyflwyno cynllun gwaith i Lywodraeth Cymru a oedd yn rhoi manylion chwe cais am gyllid o dan ei Chronfa Cymorth Rhandiroedd 2024/25 a chytuno hefyd i Dîm Biwro yr Awdurdod ymgymryd â'r rôl weinyddol yn unol â Thelerau ac Amodau'r grantiau.

Nododd yr Aelod Cabinet fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael swm dangosol o £34,308 gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cymorth Rhandiroedd er mwyn cynyddu argaeledd lleiniau rhandiroedd o ansawdd da ledled Sir Gaerfyrddin am flwyddyn ariannol 24/25. Nodwyd hefyd bod y chwe cais y manylwyd arnynt yn yr adroddiad wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru wedi hynny.

Byddai'r gronfa, sydd i'w gweinyddu gan Dîm Biwro yr Awdurdod, yn cael ei defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd i helpu i hybu gallu'r sefydliadau a nodir yn yr adroddiad ac yn cynnwys:-

- Creu lleiniau newydd
- Defnyddio lleiniau diffaith unwaith eto
- Gwella hygyrchedd
- Gwella gwasanaethau safleoedd

- Gwella diogelwch safleoedd
- Gwella'r ffordd mae safleoedd yn cael eu rheoli
- Cynyddu ailgylchu / adnewyddu
- Cynyddu bioamrywiaeth / pryfed peillio

**PENDERFYNWYD**

**3.1 Rhoi cymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer cyflwyno ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru fel rhan o'i Chronfa Cymorth Rhandiroedd 2024/25.**

**3.2 Bod Tîm Biwro yr Awdurdod yn ymgymryd â'r rôl weinyddol yn unol â Thelerau ac Amodau'r grantiau**

______________________________ __________________

**AELOD O'R CABINET** **DYDDIAD**